Canllaw Statudol ar gyfer

# Rheoliadau Ymrwymiadau Masnachu Teg (Llaeth) 2024

Fersiwn 1.0

Cyhoeddwyd 8fed Gorffennaf 2024

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3

Cefndir ........ 3

Gorfodi FDOM24 ........ 4

Materion a fydd yn cael eu hystyried wrth gyfrifo'r swm o gosb sifil neu iawndal sy'n daladwy ........ 5

Rhan A – Cosbau Sifil ........ 5

Rhan B – Iawndal ........ 7

Y gallu i wneud sylwadau ........ 8

Yr hawl i apelio penderfyniad ........ 11

# Cyflwyniad

1. Darparwyd y canllaw hwn gan Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig o dan Reoliad 22 Rheoliadau Ymrwymiadau Masnachu Teg (Llaeth) 2024 (FDOM24).
2. Mae’r canllawiau’n ymdrin â gosod cosb sifil a/neu iawndal gan Ddyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol (ASCA), sy’n gweithredu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, o dan Reoliad 21(1) FDOM24 o dan yr amgylchiadau y bu methiant i gydymffurfio â gofyniad o dan FDOM24.
3. Mae’n rhaid i’r ASCA roi sylw i’r canllaw hwn wrth arfer pwerau o dan Reoliad 21(1) FDOM24.
4. Felly, o dan Reoliad 22, mae’r canllaw hwn yn nodi’r:
5. Materion i’w hystyried wrth benderfynu ar y swm o gosb sifil a/neu iawndal sy’n daladwy am achosion o dorri rheolau FDOM24 pan fydd yr ASCA yn penderfynu gosod cosb a/neu ddyfarniad iawndal o dan Reoliad 21(1) y FDOM24.
6. Hawliau’r prynwr a chynhyrchydd i wneud sylwadau o dan Reoliad 24 y FDOM24.
7. Hawl y prynwr a’r cynhyrchydd i gyflwyno apêl gyda’r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan Reoliad 26 FDOM24 yn erbyn penderfyniad gan yr ASCA i osod gofyniad o dan Reoliad 21(1) FDOM24.

# Cefndir

8. Cyflwynodd Deddf Amaethyddiaeth 2020 Amaethyddiaeth 2020 bwerau i reoliadau gael eu creu sy’n diogelu cynhyrchwyr yn y DU rhag triniaeth annheg yn y gadwyn gyflenwi. Mae FDOM24 yn gosod rhwymedigaethau ar brynwyr mewn cysylltiad â’r contractau maent yn eu gwneud gyda chynhyrchwyr llaeth i brynu llaeth. Bydd FDOM24 yn dod i rym yn y DU o 9 Gorffennaf 2024, ac ar y pwynt hwn byddant yn berthnasol i bob contract newydd a wneir ar gyfer prynu llaeth gan gynhyrchydd. Bydd cyfnod pontio o 12 mis yn berthnasol ar gyfer contractau presennol, ac ar ôl hynny bydd angen i bob contract o’r fath gydymffurfio â FDOM24 erbyn 9 Gorffennaf 2025.
9. Bydd Dyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol (ASCA), gan weithredu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yn cyflawni swyddogaethau gorfodi o dan FDOM24.
10. Mae gan yr ASCA y pŵer i ymchwilio i gwynion perthnasol o dan FDOM24 sy’n cael eu cyfeirio gan gynhyrchwyr mewn cysylltiad â chontractau prynu llaeth. Gall yr ASCA ei gwneud yn ofynnol i bartïon i’r contract prynu llaeth gyflwyno tystiolaeth yn ymwneud â’r gŵyn berthnasol a, phe bai’r naill barti neu’r llall yn methu â darparu’r wybodaeth y gofynnwyd amdani, gallai arwain at ddwyn achos sifil i gael y dystiolaeth. Os na fydd y naill barti neu’r llall yn darparu’r dystiolaeth y gofynnwyd amdani, efallai y bydd yr ASCA hefyd yn dod i gasgliad negyddol o ran y methiant hwn. Lle mae’r ASCA yn canfod bod prynwr wedi methu â chydymffurfio â gofyniad o dan FDOM24, gallai’r ASCA ei gwneud yn ofynnol i’r prynwr dalu cosb sifil neu iawndal neu’r ddau.

11. Mae'n bwysig sicrhau bod y cosbau a osodir yn deg, yn gymesur, rhesymol ac nad ydynt yn ormodol. Wrth asesu priodoldeb a chymesuredd y gosb, bydd yr ASCA yn rhoi sylw i ffeithiau ac amgylchiadau'r achos unigol. Er nad yw'r ASCA wedi'i rwymo gan benderfyniadau blaenorol, bydd yn ceisio sicrhau bod cysondeb yn ei ddull.

## Gorfodi FDOM24

12. O dan Reoliad 21 y FDOM24, pan fydd yr ASCA, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yn canfod bod y prynwr wedi methu â chydymffurfio â gofyniad o dan FDOM24, y gallai ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr dalu cosb sifil a thaliad iawndal, neu'r ddau.
13. O dan Reoliad 24 y FDOM24 mae gan y prynwr 28 diwrnod o'r dyddiad y byddant yn derbyn yr hysbysiad o fwriad gan yr ASCA i wneud sylwadau ysgrifenedig mewn cysylltiad â'r gofyniad arfaethedig i orfodi cosb sifil a/neu iawndal. Pan fydd yr ASCA yn bwriadu gorfodi gofyniad i dalu iawndal ar brynwr, gall y cynhyrchydd wneud sylwadau mewn cysylltiad â'r swm, o fewn 28 diwrnod i dderbyn hysbysiad o fwriad.
14. O dan Reoliad 26 yr FDOM24, gall prynwr y mae gofyniad i dalu cosb sifil a/neu iawndal wedi'i osod arnynt apelio yn erbyn y penderfyniad i'w gwneud yn ofynnol i gosb sifil a/neu iawndal gael eu talu; neu swm y gosb sifil a/neu iawndal y gorchmynnwyd iddynt ei dalu. Gall cynhyrchydd a gyfeiriodd y gŵyn at yr ASCA a arweiniodd at y penderfyniad i osod cosb sifil a/neu iawndal apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â'i gwneud yn ofynnol i'r prynwr dalu naill ai cosb sifil a/neu iawndal neu'r swm y mae'r prynwr wedi'i dalu. gorchymyn i dalu'r cynhyrchydd.
15. Mae Rheoliad 22 y FDOM24 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ASCA baratoi a chyhoeddi canllawiau ynghylch y swm priodol o gosb. Mae'n rhaid i'r ASCA roi sylw i'r canllaw wrth arfer y pwerau i orfodi cosb sifil a/neu iawndal.
16. Fel y nodir yn Rheoliad 21, ni all y gosb fod yn fwy nac 1% o drosiant y prynwr.
17. Nid oes uchafswm a bennir gan y FDOM24 ar y swm o iawndal y gellir ei orfodi o dan Reoliad 21.
18. Gellir gorfodi cosb sifil a/neu iawndal mewn cysylltiad â phob methiant i gydymffurfio â FDOM24.
19. Bydd y canllaw hwn yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiweddaru yn unol â Rheoliad 22 (3).

## Materion a fydd yn cael eu hystyried wrth gyfrifo'r swm o gosb sifil neu iawndal sy'n daladwy

20. Pan fydd yr ASCA yn canfod bod prynwr wedi methu â chydymffurfio â FDOM24, gallai'r ASCA ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr naill ai talu cosb sifil i gronfa gyfunol y Llywodraeth a/neu dalu iawndal i'r cynhyrchydd.

21. Mae'r adran hon yn nodi'r materion y bydd yr ASCA yn eu hystyried wrth benderfynu ar y swm o gosb sifil ac iawndal i'w dalu.

### Rhan A – Cosbau Sifil

22. Wrth benderfynu ar swm unrhyw gosb sifil, bydd yr ASCA yn ystyried natur ac amgylchiadau'r tor-rheol ar sail achosion unigol gan ystyried:

a) Difrifoldeb y tor-rheol, gan gynnwys:

- y golled a achoswyd i'r cynhyrchydd.
- hyd y tor-rheol.
- Y nifer o achosion tor-rheol a ganfuwyd sy'n gysylltiedig â'r contract prynu llaeth y cwynwyd amdano.
- Unrhyw elw posibl y mae'r ASCA yn rhagweld a wnaed gan y prynwr, neu'r golled bosibl y mae'r ASCA yn amcangyfrif a achoswyd gan y prynwr, o ganlyniad i'r tor-rheol.
- P'un a oedd y tor-rheol yn fwriadol neu p'un a oedd y prynwr wedi methu cymryd camau rhesymol i osgoi'r tor-rheol.
- A oedd perchnogion a/neu uwch reolwyr y prynwr yn ymwybodol (neu y dylent fod wedi bod yn ymwybodol) o'r tor-rheol.
- Unrhyw achosion blaenorol o dorri rheolau'r FDOM24 gan y prynwr.

b) Unrhyw amgylchiadau lliniarol a allai leihau'r gosb, gan gynnwys:

- Camau adferol a gymerir gan y prynwr i unioni'r tor-rheol, yn ogystal ag osgoi unrhyw dor-rheol yn y dyfodol, gan gynnwys pryd y cymerwyd y camau hynny ac a gawsant eu cymryd ar gymhelliad y prynwr ei hun.
- Cydweithrediad y prynwr gyda'r ymchwiliad.
- Profiad y prynwr o gydymffurfio â'r FDOM24.

c) Unrhyw ffactorau perthnasol eraill yr ystyrir eu bod yn briodol i'r achos.

23. Bydd yr ASCA yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw gosb a orfodir yn gymesur er mwyn sicrhau cydbwysedd teg rhwng difrifoldeb y tor-rheol a'r niwed a achoswyd ochr yn ochr ag effaith unrhyw gosb ar y prynwr a phartïon eraill perthnasol. Byddai hyn yn cynnwys ystyried yr effaith y byddai gosod y gosb yn ei chael ar hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd y prynwr, yn enwedig lle gallai hyn effeithio ar eu cyflogeion neu gynhyrchwyr eraill y mae ganddynt gontractau â nhw.

24. Bydd yr ASCA hefyd yn ystyried yr angen i atal y prynwr a gyflawnodd y tor-rheol, neu eraill, rhag cyflawni achosion pellach o dor-rheol yn y dyfodol, drwy sicrhau nad yw gwerth y gosb yn cael ei orbwyso gan yr elw ariannol a wneir gan y prynwr. Bydd yr ASCA hefyd yn edrych ar effaith unrhyw gamau blaenorol a gymerwyd mewn perthynas ag achosion tebyg o dor-rheol, ac i ba raddau y mae hyn wedi gwella cydymffurfiaeth â FDOM24.
25. Fel y nodir yn rheoliad 21(3) o FDOM24, uchafswm unrhyw gosb sifil yw 1% o drosiant y prynwr. Byddai hyn yn seiliedig ar drosiant perthnasol y prynwr ar gyfer y flwyddyn fusnes cyn dyddiad y penderfyniad o orfodi cosb.
26. Mae blwyddyn fusnes yn gyfnod o fwy na chwe mis y cyhoeddodd y prynwr gyfrifon neu baratoi cyfrifon ar ei gyfer. Lle nad oedd y flwyddyn fusnes cyn dyddiad yr hysbysiad o benderfyniad yn cyfateb i ddeuddeng mis, bydd y trosiant cymwys ar gyfer y flwyddyn fusnes honno'n cael ei rannu â nifer y misoedd yn y flwyddyn fusnes honno ac yna'n cael ei luosi â 12.
27. Os nad oedd cyfnod rhagflaenol o fwy na 6 mis y cyhoeddodd neu y paratôdd y prynwr gyfrifon ar ei gyfer, trosiant y prynwr fyddai'r trosiant sy'n berthnasol am y 12 mis cyn y mis y rhoddwyd yr hysbysiad o'r penderfyniad i orfodi cosb. Os bydd gan y prynwr drosiant am gyfnod o lai na deuddeg mis, byddai'r trosiant perthnasol yn y cyfnod hwnnw yn cael ei rannu â nifer y misoedd yn y cyfnod hwnnw a'i luosi â 12.
28. Y trosiant perthnasol yw swm:
    (a) yr holl symiau sy'n tarddu o'r prynwr o ddarparu nwyddau a gwasanaethau sydd wedi'u cwmpasu o fewn gweithgareddau arferol y prynwr yn y Deyrnas Gyfunol; a
    (b) pob swm arall a dderbyniwyd gan y prynwr yn ystod gweithgareddau arferol y prynwr yn y Deyrnas Gyfunol drwy rodd, grant, cymhorthdal neu ffi aelodaeth, ar ôl didynnu disgowntiau masnach, treth ar werth a threthi eraill yn seiliedig ar y symiau a gafwyd neu a dderbyniwyd.

## Rhan B – Iawndal

29. Wrth gyfrifo unrhyw iawndal sy’n daladwy, bydd yr ASCA yn ceisio dychwelyd y cynhyrchydd i’r sefyllfa y bydden nhw wedi bod ynddo oni fyddai’r prynwr wedi torri’r ddarpariaeth berthnasol o FDOM24.
30. Penderfynir ar iawndal ar sail achosion unigol a bydd fel arfer yn cael ei bennu yn seiliedig ar y swm o golled ariannol a brofwyd o ganlyniad i’r tor-rheol.
31. Bydd yr ASCA yn asesu’r swm o iawndal a geisir gan y cynhyrchydd, gan ddefnyddio’r holl dystiolaeth sydd ar gael o’u colled ariannol a ddarparwyd yn ystod y broses ymchwilio. Gall yr ASCA hefyd bennu iawndal mewn achosion pan na chodwyd hyn gan y cynhyrchydd, gan ddefnyddio tystiolaeth a luniwyd drwy’r broses ymchwilio.
32. Dylai’r cynhyrchydd nodi’r sail y maen nhw wedi cyfrifo’r swm o iawndal a geisir yn eu cwyn a, phan fydd hyn yn cynnwys unrhyw log, y gyfradd llog a ddefnyddiwyd ganddynt.
33. Noder: Gallai treth fod yn daladwy ar unrhyw daliadau iawndal a orchmynnwyd a llog sydd wedi cronni ar hyn. Mae TChEF yn darparu canllawiau manwl ar drethu gwahanol fathau o daliadau iawndal. Am ragor o wybodaeth, efallai y byddwch eisiau ystyried cyngor treth proffesiynol.

## Y gallu i wneud sylwadau

34. Os yw'r ASCA yn bwriadu gorfodi gofyniad ar y prynwr i dalu cosb sifil a/neu iawndal, anfonir hysbysiad ysgrifenedig ("hysbysiad o fwriad") at y ddau barti a fydd yn nodi'r tor-rheol y mae'r ASCA yn ystyried sydd wedi'i gyflawni, y dystiolaeth y dibynnir arni a'r gosb sifil a/ne'r iawndal y mae'r ASCA yn bwriadu ei orfodi, ynghyd â manylion ar sut i wneud sylwadau.

### Gwneud sylwadau

#### Prynwyr

35. Gall prynwr sydd wedi derbyn hysbysiad gyflwyno sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â'r gofyniad arfaethedig i dalu cosb sifil neu dalu iawndal. Gall y sylwadau hyn ymwneud â'r achos honedig o fynd yn groes i FDOM24 yn ogystal â swm y gosb a/neu iawndal a gynigir. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am y camau a gymerwyd i gydymffurfio â FDOM24 neu'r effaith y byddai'r gosb arfaethedig yn ei chael ar fusnes y prynwr.

#### Cynhyrchwyr

36. Pan fydd yr ASCA yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr dalu iawndal i'r cynhyrchydd, gall y cynhyrchydd wneud sylwadau ysgrifenedig mewn cysylltiad â'r swm o iawndal arfaethedig.

#### Terfyn amser ar gyfer cyflwyno sylwadau

37. Mae gan brynwyr a chynhyrchwyr 28 diwrnod o'r diwrnod y byddant yn derbyn yr hysbysiad o fwriad i wneud sylwadau ysgrifenedig. Os na fyddwch yn cyflwyno sylwadau o fewn y terfyn amser hwn, bydd yr ASCA yn bwrw ymlaen i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar y wybodaeth a'r dystiolaeth a nodwyd yn yr hysbysiad o fwriad.

#### Sut i wneud sylwadau

38. Mae'n rhaid i'r sylwadau fod yn ysgrifenedig. Dylid anfon sylwadau ysgrifenedig:

Drwy e-bost i: asca@defra.gov.uk

Drwy'r post i:

The Agricultural Supply Chain Adjudicator
Department for Environment, Food and Rural Affairs
Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

### Pwy sy'n ystyried y sylwadau

39. Bydd yr ASCA yn ystyried y sylwadau wrth wneud penderfyniad terfynol i orfodi gofyniad i dalu cosb sifil a/neu iawndal ai peidio.

40. Pan fydd yr ASCA yn penderfynu gorfodi gofyniad i dalu cosb sifil neu iawndal, mae'n bosibl mai'r un a gynigir yn yr hysbysiad o fwriad fydd hyn, neu ofyniad gwahanol, yn ddibynnol ar benderfyniad terfynol yr ASCA yng ngoleuni unrhyw sylwadau a wneir.

## Sut byddaf yn cael gwybod am y canlyniad?

### Prynwyr

41. Bydd yr ASCA yn anfon hysbysiad ysgrifenedig ("hysbysiad o benderfyniad") at y prynwr.

42. Pan fydd y penderfyniad yn gorfodi gofyniad i dalu cosb sifil neu iawndal o dan reoliad 21(1), bydd yr hysbysiad o benderfyniad yn nodi'r:

- gofyniad sy'n cael ei orfodi a swm y gosb sifil a/neu iawndal i'w dalu mewn cysylltiad â phob tor-rheol;
- y rhesymau dros orfodi'r gofyniad;
- esboniad o sut y cyfrifwyd y swm;
- sut y gellir gwneud y taliad;
- bod y taliad yn ddyledus o fewn 28 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad o benderfyniad;
- gwybodaeth am hawl y prynwr i apelio yn erbyn gosod gofyniad o dan reoliad 26;
- pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu gorfodi cosb sifil, bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol hawl i adfer unrhyw gosb sifil heb ei thalu fel dyled; neu

43. Os y penderfyniad yw peidio â gosod gofyniad i dalu cosb sifil neu ddigollediad o dan reoliad 21(1), bydd yr hysbysiad o benderfyniad yn nodi:—

- y penderfyniad hwnnw; a
- y rhesymau dros wneud y penderfyniad.

### Cynhyrchwyr

44. Bydd yr ASCA hefyd yn anfon copi o'r hysbysiad o benderfyniad at y cynhyrchydd cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r ASCA yn rhoi hysbysiad o benderfyniad i'r prynwr.

45. Pan fydd yr ASCA yn ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr dalu iawndal i'r cynhyrchydd neu os yw wedi penderfynu peidio gosod gofyniad i'r prynwr busnes dalu cosb sifil neu iawndal, bydd yr hysbysiad ysgrifenedig hefyd yn nodi hawl y cynhyrchydd i apelio o dan reoliad 26(2).

**Beth sy'n digwydd ar ôl i'r hysbysiad gael ei dderbyn?**

46. Os yw'n ofynnol i brynwr dalu cosb sifil a/neu dalu iawndal o dan reoliad 21(1), rhaid iddo wneud hynny o fewn 28 diwrnod i gael hysbysiad o benderfyniad o dan baragraff 25(4).

47. Os bydd naill ai'r prynwr neu'r cynhyrchwr yn penderfynu apelio yn erbyn y penderfyniad, bydd y terfyn amser ar gyfer talu'r gosb sifil a/neu iawndal yn cael ei oedi hyd nes y daw'r apêl i ben. Gweler yr adran nesaf ar yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad am ragor o wybodaeth.

## Yr hawl i apelio penderfyniad

48. Mae Rheoliad 26(3) FDOM24 yn nodi'r hawl i apelio'r penderfyniad a wnaed gan yr ASCA i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn yr amgylchiadau a nodir isod. Gall y Tribiwnlys Haen Gyntaf benderfynu ar apêl gan roi sylw i faterion nad oedd yr ASCA yn ymwybodol ohonynt. Rhaid anfon neu gyflwyno hysbysiad o apêl i'r Tribiwnlys fel ei fod yn dod i law o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y daeth yr hysbysiad o benderfyniad i law.

### Am beth y gallaf apelio?

### Prynwyr

49. Gall y prynwr y mae gofyniad i dalu cosb sifil neu iawndal wedi'i osod arno o dan FDOM24, apelio yn erbyn:
    - penderfyniad i orfodi i gosb sifil a/neu iawndal gael ei dalu; neu
    - swm y gosb sifil a/neu'r iawndal y maen nhw wedi'u gorchymyn i'w dalu.

### Cynhyrchydd

50. Gall y cynhyrchydd a gyfeiriodd y gŵyn at yr ASCA a arweiniodd at y penderfyniad i osod cosb sifil a/neu iawndal, apelio yn erbyn:
    - penderfyniad i beidio ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr dalu cosb sifil neu iawndal; neu
    - swm unrhyw iawndal y gorchmynnwyd y prynwr i'w dalu i'r cynhyrchydd.

### Beth sy'n digwydd i'r terfyn amser ar gyfer talu cosb sifil a/neu iawndal pan fyddaf yn apelio?

51. Bydd y terfyn amser 28 diwrnod ar gyfer cosbau sifil a/neu iawndal i'w dalu yn cael ei oedi nes i'r apêl ddod i ben.
52. Os yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, yn dilyn apêl, yn cadarnhau'r penderfyniad i osod cosb sifil a/neu iawndal, rhaid i'r prynwr wneud y taliad cyn diwedd 28 diwrnod, gan ddechrau gyda dyddiad dyfarniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf, llai nifer y diwrnodau sydd wedi mynd heibio rhwng y dyddiad y derbyniodd y prynwr yr hysbysiad o benderfyniad gan ASCA a'r dyddiad y cafodd yr apêl ei ffeilio.

### At bwy i apelio

53. Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw apêl a wneir o dan FDOM24 i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol).

### Sut i ofyn am apêl

54. Am wybodaeth am sut i apelio, gweler gwefan y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol): Y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) - GOV.UK (www.gov.uk)